WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol o bolisiau a gweithdrefnau chwythu'r chwiban a chwyno – **Cyngor Sir Penfro**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1225A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Gyngor Sir Penfro yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd / sydd i'w gyflawni yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn rhinwedd eu swyddogaethau unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, y trydydd partïon perthnasol yw Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Gwnaed y gwaith hwn gan Jeremy Evans, Alison Lewis a Gareth W. Lewis
dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae camau gweithredu'r Cyngor i fynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwelliant wedi cryfhau ei drefniadau o ran ymdrin ag achosion o chwythu'r chwiban a chwyno, ond mae angen gwaith pellach i gyflawni'r deilliannau angenrheidiol.


Adroddiad cryno 5

Adroddiad manwl

Mae camau gweithredu'r Cyngor i gryfhau ein cynigion ar gyfer gwelliant wedi cryfhau ei drefniadau o ran mynd i'r afael ag achosion o chwythu'r chwiban a chwyno, ond mae angen gwneud gwaith pellach i gyflawni'r deilliannau angenrheidiol 7

Cynnig ar gyfer Gwelliant 1: Cadarnhau swyddogaeth y rheolwr llinell wrth ymdrin ag achosion o chwythu'r chwiban ynghylch pryderon 9

Mae'r Cyngor wedi cadarnhau swyddogaeth rheolwyr llinell yn ei Bolisi Chwythu'r Chwiban diwygiedig, sydd bellach yn datgan y bydd y rheolwr llinell yn cwrdd â'r sawl a fynegodd y pryder gydag aelod o'r Tîm Cynghori Adnoddau Dynol Ymgynghorol 9

Cynnig ar gyfer Gwelliant 2: Trefnu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r tri 'unigolyn dynodedig'mewnol a enwir ym Mholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor 10

Mae 'unigolion dynodedig' y Cyngor wedi cwrdd yn rheolaidd ondnid yw'r cyfarfodydd wedi cyflawni gofynion llawn y cynigion ar gyfer gwelliant 10

Cynnig ar gyfer Gwelliant 3: Cynnwys amserlenni a dulliau yn y Polisi Chwythu'r Chwiban ar gyfer ymateb i'r sawl sy'n mynegi pryderon a'u hysbysu o'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad 11

Mae Polisi Chwythu'r Chwiban diwygiedig y Cyngor bellach yn cynnwys amserlen o ran ymateb i rywun sy'n mynegi pryder a dull o'u hysbysu 11

Cynnig ar gyfer Gwelliant 4: Gwneud y modiwl e-ddysgu ar chwythu'r chwiban yn orfodol i bob swyddog 11

Mae Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor yn datgan bod pecyn e-ddysgu ar gael a bod gofyn i bob gweithiwr ei gwblhau. Serch hyn, nid yw mwyafrif y gweithwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant 11

Cynnig ar gyfer Gwelliant 5: Cadarnhau swyddogaeth y Tîm Adnoddau Dynol ym Mholisi Cwynion y Cyngor 12

Mae'r Cyngor wedi cadarnhau swyddogaeth y Tîm Adnoddau Dynol yn y Polisi Cwynion diwygiedig 12

Cynnig ar gyfer Gwelliant 6: Adolygu a diwygio Polisi Cwynion y Cyngor i gynnwys cadarnhad o'r broses ymchwilio 12

Mae'r Cyngor wedi cadarnhau sut y bydd yn ymdrin ag ymchwiliadau yn y Polisi Cwynion diwygiedig 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd a pham

1 Yn rhan o raglen archwilio 2017-18 cynhaliwyd adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau chwythu'r chwiban a chwyno yng Nghyngor Sir Penfro (y Cyngor). Cyflwynwyd adroddiad o ganfyddiadau ein hadolygiad i'r Cyngor ym mis Mawrth 2018.

2 Cyhoeddwyd chwe chynnig ar gyfer gwelliant o ran ffyrdd y gallai'r Cyngor wella ei bolisïau a gweithdrefnau chwythu'r chwiban a chwyno. Mae'r adolygiad hwn yn bwrw golwg ar yr hyn y mae'r Cyngor wedi ei wneud mewn ymateb i'r chwe chynnig ar gyfer gwelliant.

3 Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod mis Chwefror 2019.

#### Yr hyn a ganfuwyd

4 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw'r Cyngor wedi gweithredu'n effeithlon i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwelliant a oedd wedi eu cynnwys yn ein hadroddiad ym mis Mawrth 2018, **Adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau chwythu'r chwiban a chwyno yng Nghyngor Sir Penfro**?

5 Rhwng popeth, canfuwyd bod camau gweithredu'r Cyngor i fynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwelliant wedi cryfhau ei drefniadau o ran mynd i'r afael ag achosion o chwythu'r chwiban a chwynion, ond mae angen gwaith pellach i gyflawni'r deilliannau angenrheidiol. Daethpwyd i'r canlyniad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor wedi cadarnhau swyddogaeth rheolwyr llinell yn ei Bolisi Chwythu'r Chwiban diwygiedig, sydd bellach yn datgan y bydd y rheolwr llinell yn cwrdd â'r sawl sy'n mynegi'r pryder gydag aelod o'r Tîm Cynghori Adnoddau Dynol;
- mae 'unigolion dynodedig' y Cyngor wedi cyfarfod yn rheolaidd ond nid yw'r cyfarfodydd wedi cyflawni gofynion llawn y cynigion ar gyfer gwelliant;
- mae Polisi Chwythu'r Chwiban diwygiedig y Cyngor bellach yn cynnwys amserlen ar gyfer ymateb i unigolion sy'n mynegi pryderon a dull o'u hysbysu o ddatblygiadau;
- mae Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor yn datgan bod pecyn e-ddysgu ar gael a bod gofyn i bob gweithiwr ei gwblhau. Serch hyn, nid yw mwyafrif y gweithwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant;
- mae'r Cyngor wedi cadarnhau swyddogaeth y Tîm Adnoddau Dynol yn ei Bolisi Cwynion diwygiedig; ac
- mae'r Cyngor wedi cadarnhau sut y bydd yn ymdrin ag ymchwiliadau yn y Polisi Cwynion diwygiedig.

# Cynigion ar gyfer gwelliant

## Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwelliant

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cynigion ar gyfer gwelliant a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwelliant |
| --- |
| **Yr 'unigolion dynodedig' a enwir ym Mholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor i gyfarfod yn rheolaidd**<br>C1 Mae'n rhaid i'r Cyngor ddatblygu cyfarfodydd rheolaidd tri 'unigolyn dynodedig' y Cyngor fel eu bod:<br>• yn bodloni gofynion ein cynnig gwreiddiol ar gyfer gwelliant[1]; ac<br>• yn cadw cofnod ffurfiol o'r cyfarfodydd fel bod pwyntiau gweithredu a chyfeiriol clir ar gyfer mesur cynnydd. |
| **Hyfforddiant chwythu'r chwiban**<br>C2 Mae'n rhaid i'r Cyngor:<br>• sicrhau bod pob gweithiwr yn cael hyfforddiant chwythu'r chwiban yn unol â'i bolisi Chwythu'r Chwiban; a<br>• sefydlu system gadarn fel y gall fod yn sicr bod pob gweithiwr wedi cael hyfforddiant chwythu'r chwiban. |

[1] Y cynnig gwreiddiol ar gyfer gwelliant oedd y byddai cyfarfodydd rheolaidd yr 'unigolion dynodedig, yn adolygu cofnodion cyfredol y Cyngor o ran chwythu'r chwiban a chwyno; yn cadw golwg ar weithredu'r polisïau cywir ar draws y Cyngor; yn trafod achosion, yn cadw golwg ar gynnydd ac yn adolygu'r gweithdrefnau a ddilynir, yn datblygu a hyrwyddo swyddogaeth yr Hyrwyddwyr Chwythu'r Chwiban, ac yn hysbysu'r Pwyllgor Archwilio am unrhyw bryderon.

# Adroddiad manwl

## Mae camau gweithredu'r Cyngor i gryfhau ein cynigion ar gyfer gwelliant wedi cryfhau ei drefniadau o ran mynd i'r afael ag achosion o chwythu'r chwiban a chwyno, ond mae angen gwneud gwaith pellach i gyflawni'r deilliannau angenrheidiol

6 Yn wreiddiol adolygwyd Polisi a threfniadau Chwythu'r Chwiban y Cyngor yn 2014 yn rhan o'n hadolygiad o ran diogelu[2]. Canfuwyd bod y trefniadau o ran chwythu'r chwiban ar y cyfan yn gadarn, ond bod angen rhoi sylw i rai gwendidau yn y polisi, y broses a'r hyfforddiant.

7 Yn dilyn ein gwaith, cwblhaodd y Cyngor adolygiad dan arweiniad y cynghorwyr o ran pa mor effeithiol oedd ei bolisi a'i weithdrefnau chwythu'r chwiban. Gwnaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen y cynghorwyr saith prif argymhelliad pan gyflwynodd ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor Trosolwg Diogelu a Chraffu yn 2015. Roedd y rhain yn unol â'r rhai a wnaed yn ein hadolygiad yn 2014.

8 Yn rhan o'n rhaglen archwilio ar gyfer 2017-18, cynhaliwyd adolygiad pellach o bolisïau a gweithdrefnau chwythu'r chwiban a chwyno yng Nghyngor Sir Penfro. Roedd hyn oherwydd bod gan y Cyngor enghreifftiau o staff yn chwythu'r chwiban am bryderon a oedd yn cwestiynu a oedd materion a godwyd yn cael eu trin yn effeithiol a'u hystyried dan y polisi cywir. Yn ein hadolygiad archwiliwyd y trefniadau sydd gan y Cyngor ar gyfer ymdrin â chwynion gan weithwyr a chwythu'r chwiban ynghylch pryderon. Ein canfyddiad yn y pen draw yn ein hadroddiad ym mis Mawrth 2018 oedd bod angen i'r Cyngor wella sut mae'n ymdrin â chwythu'r chwiban a chwynion gan weithwyr, a mynd i'r afael â materion a godwyd mewn adolygiadau chwythu'r chwiban blaenorol. Cyflwynwyd chwe chynnig ar gyfer gwelliant gennym yn ein hadroddiad ym mis Mawrth 2018[3].

[2] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Trefniadau'r Awdurdod Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Cyngor Sir Penfro**, Swyddfa Archwilio Cymru, Rhagfyr 2014.

[3] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau chwythu'r chwiban a chwyno yng Nghyngor Sir Penfro,** Swyddfa Archwilio Cymru, Mawrth 2018.

## Arddangosyn 2: Cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella o 'Adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau chwythu'r chwiban a chwyno yng Nghyngor Sir Penfro', Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn dangos y cynigion ar gyfer gwelliant a nodwyd yn ein hadroddiad ym mis Mawrth 2018.

| Cynigion ar gyfer gwelliant | |
|---|---|
| **C1** | **Cadarnhau swyddogaeth y rheolwr llinell a'r Pennaeth Gwasanaeth o ran ymdrin ag achosion o chwythu'r chwiban am bryderon**<br>• Dylai'r Cyngor egluro yn ei Bolisi Chwythu'r Chwiban y weithdrefn y bydd 'unigolyn dynodedig', rheolwr llinell neu Bennaeth Gwasanaeth yn ei dilyn pan fynegir pryder dilys. Bydd hyn yn:<br>– sicrhau y caiff gwybodaeth am bob pryder ei chadw mewn un man canolog;<br>– hyrwyddo ffordd gyson o ymdrin â chwynion ar draws y Cyngor; ac<br>– o gymorth i'r ganolfan gorfforaethol fonitro achosion. |
| **C2** | **Trefnu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r tri 'unigolyn dynodedig' a enwir ym Mholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor**<br>• Mae'r angen i'r tri 'unigolyn dynodedig' sydd wedi eu rhestru ym Mholisi Chwythu'r Chwiban gyfarfod yn rheolaidd er mwyn adolygu cofnodion cyfredol y Cyngor o ran cwynion a chwythu'r chwiban ynghylch pryderon.<br>• Byddai'r cyfarfod rheolaidd hwn yn caniatáu i'r 'unigolion dynodedig':<br>– fonitro gweithrediad y polisïau cywir ar draws y Cyngor;<br>– trafod achosion, monitro cynnydd ac adolygu'r gweithdrefnau a ddilynir,<br>– datblygu a hyrwyddo swyddogaeth yr Hyrwyddwyr Chwythu'r Chwiban, a<br>– hysbysu'r Pwyllgor Archwilio o unrhyw risgiau posibl. |
| **C3** | **Cynnwys amserlenni a dulliau yn y Polisi Chwythu'r Chwiban ar gyfer ymateb i'r sawl sy'n mynegi pryderon a'i hysbysu o'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad**<br>• Cynnwys manylion yn y Polisi Chwythu'r Chwiban o ran yr amserlen a'r dulliau o ymateb i rywun sy'n mynegi pryderon a'i hysbysu o'r wybodaeth ddiweddaraf yn ystod yr ymchwiliad. |
| **C4** | **Gwneud y modiwl e-ddysgu ar chwythu'r chwiban yn orfodol i bob swyddog**<br>Mae'r Cyngor wedi llunio cwrs hyfforddiant e-ddysgu da ar chwythu'r chwiban, ac fe ddylai wneud yr hyfforddiant hwn yn orfodol i bob swyddog. Dylai'r Cyngor hefyd fynd ati'n frwdfrydig i annog cynghorwyr a llywodraethwyr i fod yn bresennol. Bydd hyn o gymorth i feithrin ymwybyddiaeth a gwybodaeth. |
| **C5** | **Cadarnhau swyddogaeth y Tîm Adnoddau Dynol ym Mholisi Cwynion y Cyngor**<br>• I sicrhau bod y Cyngor yn rhoi cyngor cyson a chywir, ac i fonitro achosion, dylai'r Polisi Cwynion ofyn i bob rheolwr llinell gysylltu â'r Tîm Adnoddau Dynol cyn gynted ag y mae gweithiwr yn gwneud cwyn. |

| Cynigion ar gyfer gwelliant | |
|---|---|
| **C6** | **Adolygu a diwygio Polisi Cwynion y Cyngor i gynnwys:**<br>• cadarnhad o bwy sy'n penderfynu a oes angen ymchwilio i gŵyn;<br>• eglurhad o bwy fydd yn cynnal ymchwiliad (gan gynnwys sicrwydd y byddai unrhyw swyddog ymchwilio yn ddiduedd);<br>• eglurhad o sut caiff barn tystion ei hystyried (e.e. cyfweld gweithwyr eraill); a<br>• rhannu adroddiad ymchwil drafft gyda'r sawl a wnaeth y gwyn er mwyn ei alluogi i wirio cywirdeb y ffeithiau. |

9 Yn rhan o raglen archwilio eleni rydym wedi adolygu'r hyn y mae'r Cyngor wedi ei wneud mewn ymateb i'r cynigion ar gyfer gwelliant a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2018 ac ystyried a yw'r camau gweithredu hynny yn cryfhau trefniadau chwythu'r chwiban a chwyno'r Cyngor. Yn yr adroddiad diweddaraf hwn canfuwyd bod y Cyngor wedi mynd i'r afael â phedwar cynnig yn llawn a dau gynnig yn rhannol. Amlinellir isod ein gwerthusiad o gynnydd mewn cysylltiad â phob un o'r chwe chynnig.

# Cynnig ar gyfer Gwelliant 1: Cadarnhau swyddogaeth y rheolwr llinell wrth ymdrin ag achosion o chwythu'r chwiban ynghylch pryderon

## Mae'r Cyngor wedi cadarnhau swyddogaeth rheolwyr llinell yn ei Bolisi Chwythu'r Chwiban diwygiedig, sydd bellach yn datgan y bydd y rheolwr llinell yn cwrdd â'r sawl a fynegodd y pryder gydag aelod o'r Tîm Cynghori Adnoddau Dynol

10 Wrth ddod i'r canlyniad hwn canfuwyd:

- bod y Polisi Chwythu'r Chwiban bellach yn datgan y bydd rheolwr llinell ac aelod o'r Tîm Cynghori Adnoddau Dynol yn cwrdd â'r sawl sy'n mynegi'r pryder;
- mai barn y Cyngor yw bod aelod o'r Tîm Cynghori Adnoddau Dynol yn bresennol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, cyfrinachedd a throsolwg corfforaethol; a
- bod y Polisi Chwythu'r Chwiban yn egluro y gall rhywun sy'n mynegi pryder gysylltu â'i reolwr llinell, Pennaeth Gwasanaeth, un o dri 'unigolyn dynodedig', cynrychiolydd undeb neu'r Tîm Cynghori Adnoddau Dynol.

# Cynnig ar gyfer Gwelliant 2: Trefnu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r tri 'unigolyn dynodedig' mewnol a enwir ym Mholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor

## Mae 'unigolion dynodedig' y Cyngor wedi cwrdd yn rheolaidd ond nid yw'r cyfarfodydd wedi cyflawni gofynion llawn y cynigion ar gyfer gwelliant

11 Wrth ddod i'r canlyniad hwn canfuwyd:

- bod yr 'unigolion dynodedig' a enwir ym Mholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor wedi cyfarfod yn ffurfiol ddwywaith ers ein hadroddiad ym mis Mawrth 2018 (dywedodd y swyddogion perthnasol wrthym, pe bai angen, y byddent yn cyfarfod yn fwy rheolaidd);
- yn y cyfarfodydd, bod y tri 'unigolyn dynodedig' wedi adolygu cofnodion chwythu'r chwiban y Cyngor ond nid y cofnodion cwynion na gweithrediad y polisïau cywir ar draws y Cyngor;
- ar wahân i enwi'r Hyrwyddwyr Chwythu'r Chwiban yn y Polisi, nad yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw waith pellach i hyrwyddo eu swyddogaeth; ac
- nad oes unrhyw ddeilliannau ffurfiol yn dod o'r cyfarfodydd, megis cofnodion neu gofnod o weithredoedd.

12 Gofyniad y cynnig hwn, fel y nodwyd yn glir yn ein hadroddiad, oedd bod y Cyngor yn cael trosolwg corfforaethol o achosion o chwythu'r chwiban a chwynion, er mwyn gweld meysydd pryder cyffredin a mynd i'r afael â'r rhesymau creiddiol. Fodd bynnag, mae'r cyfarfodydd wedi canolbwyntio ar yr achosion o chwythu'r chwiban sydd wedi eu cynnwys yn y cofnodion, ac nid y materion ehangach. O ganlyniad, rydym wedi cyflwyno cynnig pellach ar gyfer gwelliant yn yr adroddiad hwn (Arddangosyn 1 – C1).

# Cynnig ar gyfer Gwelliant 3: Cynnwys amserlenni a dulliau yn y Polisi Chwythu'r Chwiban ar gyfer ymateb i'r sawl sy'n mynegi pryderon a'i hysbysu o'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad

## Mae Polisi Chwythu'r Chwiban diwygiedig y Cyngor bellach yn cynnwys amserlen ar gyfer ymateb i rywun sy'n mynegi pryder a dull o'u hysbysu

13 Wrth ddod i'r canlyniad hwn canfuwyd:

- bod y Polisi Chwythu'r Chwiban bellach yn datgan y gwahoddir y sawl sy'n mynegi pryder i gyfarfod ymhen 7 diwrnod calendr o'r adeg yr hysbyswyd yr Adran Adnoddau Dynol o'r pryder; ac
- yn y cyfarfod hwn, y bydd y sawl sy'n mynegi'r pryder a chynrychiolwyr y Cyngor yn cytuno ar 'gylch gorchwyl' i nodi pa mor aml ac ym mha ffordd y bydd y Cyngor yn diweddaru.

# Cynnig ar gyfer gwella 4: Gwneud y modiwl e-ddysgu ar chwythu'r chwiban yn orfodol i bob swyddog

## Mae Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor yn datgan bod pecyn e-ddysgu ar gael a bod gofyn i bob gweithiwr ei gwblhau. Serch hyn, nid yw mwyafrif y gweithwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant

14 Wrth ddod i'r canlyniad hwn canfuwyd:

- bod y Polisi Chwythu'r Chwiban yn datgan yn glir fod pecyn e-ddysgu ar gael a bod gofyn i bob gweithiwr ei gwblhau;
- bod nodyn atgoffa blynyddol yn cael ei ddosbarthu i bob gweithiwr i godi ymwybyddiaeth o chwythu'r chwiban ac i sicrhau eu bod yn cwblhau'r modiwl e-ddysgu. Fodd bynnag, dywedodd y Cyngor wrthym fod cyfraddau cwblhau'r modiwl e-ddysgu oddeutu 45%;
- bod y Cyngor wedi datgan bod gorfodi pob gweithiwr i gwblhau'r modiwl e-ddysgu yn broblem logistaidd oherwydd 'natur beripatetig' rhai rhannau o'r gweithlu; a
- nad yw'r pecyn e-ddysgu wedi ei hyrwyddo'n frwd ymysg cynghorwyr.

15 Gofyniad y cynnig hwn oedd bod y Cyngor yn sicrhau bod pob gweithiwr yn cael hyfforddiant o ran chwythu'r chwiban. Gan nad yw hyn wedi digwydd rydym wedi gwneud cynnig pellach ar gyfer gwelliant yn yr adroddiad hwn (Arddangosyn 1 – C2).

# Cynnig ar gyfer Gwelliant 5: Cadarnhau swyddogaeth y Tîm Adnoddau Dynol ym Mholisi Cwynion y Cyngor

## Mae'r Cyngor wedi cadarnhau swyddogaeth y Tîm Adnoddau Dynol yn y Polisi Cwynion diwygiedig

16 Wrth ddod i'r canlyniad hwn canfuwyd:

- bod y Polisi Cwynion bellach yn datgan y dylai'r rheolwr, cyn gynted ag y bydd wedi cael cwyn ysgrifenedig, wahodd yr unigolyn i gyfarfod er mwyn trafod y mater;
- bod y Polisi hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheolwr gysylltu â'r Tîm Cynghori Adnoddau Dynol; ac
- yn unol â'r Polisi Cwynion, bod grym gan y rheolwr llinell i ymdrin â chwynion anffurfiol heb hysbysu'r Tîm Cynghori Adnoddau Dynol ohonynt.

# Cynnig ar gyfer Gwelliant 6: Adolygu a diwygio Polisi Cwynion y Cyngor i gynnwys cadarnhad o'r broses ymchwilio

## Mae'r Cyngor wedi cadarnhau sut y bydd yn ymdrin ag ymchwiliadau yn y Polisi Cwynion diwygiedig

17 Wrth ddod i'r canlyniad hwn canfuwyd:

- Bod y Polisi Cwynion bellach yn nodi'n benodol fod y rheolwr llinell yn penderfynu a oes angen ymchwiliad;
- os oes angen ymchwiliad, bod disgwyl i'r Swyddogion Ymchwilio ddilyn Canllaw ACAS ar Gynnal Ymchwiliadau yn y Gweithle;
- bod y Polisi Cwynion yn cynnwys dolen at Ganllaw ACAS; a
- bod y Polisi Cwynion yn nodi y darperir eglurhad ysgrifenedig llawn i'r gweithiwr yn nodi pa gamau y mae'r cyflogwr yn bwriadu eu cymryd i ddatrys y gŵyn.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru